



# Defnyddio Cerbyd Modur Adloniadol

## Datganiad Sefyllfa: 002

### Cyflwyniad

Cymerodd 2.9% o boblogaeth Cymru ran mewn gyrru a beicio modur oddi ar y ffordd yn ystod 2016/17 (Arolwg Cenedlaethol, 2017). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) eisiau annog defnydd cerbydau modur adloniadol cyfrifol, ac rydym yn gweithio gyda chyrrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon modur i ddarparu mynediad i ddigwyddiadau mwyaf adnabyddus Cymru.

### Diffiniad

Yma, eglurwn y gwahanol fathau o ddefnydd cerbyd modur adloniadol:

Unigolion	Grwpiau cysylltiedig	Digwyddiadau neu grwpiau masnachol	Digwyddiadau cystadleuol
Gyrrwyr / beicwyr unigol	Clybiau modur sy'n gysylltiedig â chyrrff llywodraethu cenedlaethol	Ralïau tractor, saffariâu Land Rover a ralïau hen geir	Ralïau, rasys dal ati a dringo bryniau

**Sylwch:** Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu defnydd o gerbydau modur adloniadol dwy a phedair olwyn ond nid yw'n cwmpasu mynediad arall i gerbydau sydd ddim yn adloniadol, megis ar gyfer ffilmio a mynediad preifat.

### Lle gallwch fynd heb ein caniatâd

Mae gyrru cerbyd modur adloniadol yn hawl gyfreithiol ar Gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOATs). Gallwch nodi'r llwybrau hyn ar y mapiau a gedwir gan yr Awdurdod Lleol.

### Pryd y byddwch angen caniatâd gennym

- Byddwn yn ystyried ceisiadau gan grwpiau cysylltiedig i ddefnyddio'r rhannau o dir yr ydym yn eu rheoli nad ydynt yn BOATs.
- Bydd angen i ddigwyddiadau neu grwpiau masnachol ofyn am ein caniatâd i ddefnyddio unrhyw ran o dir a reolir gan CNC.
- Rhoddir caniatâd ar gyfer digwyddiadau cystadleuol trwy gyrrff llywodraethu chwaraeon modur (yn unol â'n Huwch-Gytundebau). Fodd bynnag, dim ond rhannau o'n tir sy'n cael eu hystyried ar gyfer hyn.

**Nodwch:** ni fyddwn yn rhoi caniatâd i unigolion ddefnyddio ardaloedd lle nad oes hawl gyfreithiol iddynt gael mynediad. Dylai unigolion sy'n dymuno gyrru cerbyd modur adloniadol ar ein stad geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp cysylltiedig.

## Sut rydym yn cefnogi defnydd o gerbydau modur adloniadol

- Byddwn yn dilyn ein [Hegwyddorion Arweiniol](#) ar gyfer cynnwys y gymuned gyda thir rydym yn ei reoli.
- Rydym yn gweithio'n agos â Chyrrff Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi digwyddiadau cystadleuol a reolir yn dda.
- Rydym yn ystyried lleoliad digwyddiadau proffil uchel yn ofalus, gan y gallant arwain at gynnydd mewn gweithgaredd anghyfreithlon oddi ar y ffordd.
- Rydym yn gweithio gyda'r heddlu a sefydliadau eraill i orfodi'r gyfraith pan fydd gweithgarwch oddi ar y ffordd anghyfreithlon yn digwydd, er mwyn sicrhau bod ein tir bob amser yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

## Beth fydd angen i chi ei wneud

- Dilynwch y [Cod Cefn Gwlad](#), y [Cod Defnyddwyr Llwybrau](#) a rheolau corff llywodraethu cenedlaethol ([Llawlyfr ACU](#) a [rheoliadau MSA](#)) a chanllawiau perthnasol eraill (er enghraifft y [cod ymddygiad TRF](#) neu'r [canllaw Tread Lightly](#)).
- Os oes angen caniatâd arnoch ond heb ei gael, peidiwch â chynnal eich gweithgaredd.

Os ydych wedi cael ein caniatâd, bydd angen i chi hefyd:

- Sicrhau bod pob cerbyd a gyrrwr yn cwrdd â gofynion cyfreithiol statudol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a chyfreithiau traffig ffyrdd.
- Parchu defnyddwyr eraill y tir a reolir gan CNC. Gall unrhyw ymddygiad anghyfrifol neu anghymdeithasol ar lwybrau a rennir arwain at wrthdaro â defnyddwyr eraill a gallai fod yn risg i ddiogelwch y cyhoedd.
- Cadw at ein holl arwyddion. Mae tir a reolir gan CNC yn aml yn amgylchedd gwaith a gall methu â dilyn arwyddion diogelwch fod yn beryglus i yrwyr, beicwyr a rheolwyr tir.
- Dilyn ein canllawiau '[Cadwch ef yn Lân](#)' i ddiogelu rhywogaethau ymledol rhag lledaenu a bygythiadau bioddiogelwch. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae llwybrau'n mynd trwy gyrff dŵr neu ardaloedd mwdlyd.
- Gofalu nad ydych yn achosi erydiad neu'n niweidio llystyfiant, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif fel coetir hynafol lled-naturiol, twyni tywod a chynefinoedd cors. Gall defnydd dwys hefyd ddifrodi wynebau llwybr, sy'n golygu nad yw pobl eraill yn gallu eu defnyddio. Hefyd, gall rhigoli llwybrau a ddefnyddir yn rheolaidd effeithio ar lif dŵr wyneb ac arwain at lifogydd a chynyddu'r gwaddodion ffo.
- Ceisio lleihau'r sŵn a wnewch trwy leddfu sain eich cerbyd cymaint ag y bo modd a dangos disgrisiwn gyda'r throthl. Mae llygredd sŵn yn peri pryder i ddefnyddwyr a thrigolion eraill.
- Bod yn ofalus bob amser nad ydych yn amharu ar adar neu anifeiliaid. Maent yn arbennig o agored i niwed yn ystod y tymor bridio ac yn y gaeaf.
- Osgoi peri llygredd. Mae tanwydd yn gollwng o gerbydau sy'n gallu effeithio ar gyrsiau dŵr a gall defnydd dwys mewn rhai amgylcheddau hefyd effeithio ar ansawdd yr aer.

## Sut y gallwch ymgeisio am ganiatâd

I ymgeisio am ganiatâd i ddefnyddio tir a reolir gan CNC ar gyfer mynediad marchogol, cysylltwch hefo ein tîm rhanbarthol yn eich ardal. Mae manylion cyswllt ar gael yn y ddogfen yma:

[Manylion cyswllt am ganiatâd i ddefnyddio tir a reolir gan CNC](#)

## Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, gallwch wybod mwy ar y dolenni canlynol:

- Cymdeithas Beicwyr Gwlad: <http://www.trf.org.uk/>
- Cymdeithas Chwaraeon Modur Prydain Fawr: <https://www.msauk.org>
- Yr Undeb Chwaraeon Modur: <https://www.acu.org.uk>
- LARA: [www.laraqb.org](http://www.laraqb.org)
- Treadlightly: [www.treadlightly-uk.org](http://www.treadlightly-uk.org)
- Green Lane Association Ltd: [www.glass-uk.org](http://www.glass-uk.org)
- Sefydliad Gyrwyr Proffesiynol: <http://www.iopd.org.uk/>